RHONDDA CYNON TAF

**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CYNGOR**
Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 26 Mai 2021 am 5.00 pm

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cyngor Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd S Powderhill (Cadeirydd)

Y Cynghorydd G Hughes
Y Cynghorydd H Boggis
Y Cynghorydd S Bradwick
Y Cynghorydd A Calvert
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd G Davies
Y Cynghorydd S Rees
Y Cynghorydd S Evans
Y Cynghorydd M Forey
Y Cynghorydd  M Norris
Y Cynghorydd M Webber
Y Cynghorydd M Weaver
Y Cynghorydd L Walker
Y Cynghorydd P Howe
Y Cynghorydd R Yeo
Y Cynghorydd G Thomas
Y Cynghorydd M Adams
Y Cynghorydd G Stacey
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd S Powell
Y Cynghorydd W Owen
Y Cynghorydd E Stephens
Y Cynghorydd G Jones
Y Cynghorydd W Jones
Y Cynghorydd L Hooper
Y Cynghorydd D Grehan
Y Cynghorydd H Fychan
Y Cynghorydd J Cullwick
Y Cynghorydd A Chapman
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd S Trask
Y Cynghorydd M Powell
Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd T Williams
Y Cynghorydd D Williams
Y Cynghorydd L De Vet
Y Cynghorydd J Elliott
Y Cynghorydd S.Evans
Y Cynghorydd A Fox
Y Cynghorydd E Webster
Y Cynghorydd A Roberts
Y Cynghorydd G Holmes
Y Cynghorydd G Hopkins
Y Cynghorydd K Morgan
Y Cynghorydd P Jarman
Y Cynghorydd A Morgan
Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd J Brencher
Y Cynghorydd Owen-Jones
Y Cynghorydd S Morgans
Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd W Treeby
Y Cynghorydd L Jones
Y Cynghorydd J Harries
Y Cynghorydd E George
Y Cynghorydd J Davies
Y Cynghorydd A Cox
Y Cynghorydd E Griffiths
Y Cynghorydd J Edwards
Y Cynghorydd R Williams

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Ms L Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned

**15 Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S Belzak, A Davies-Jones, M Fidler Jones, K L Jones, J James, M Griffiths, S Pickering, S Rees-Owen, M Tegg, R K Turner, J Williams a C Willis.

**16 Croeso i Aelodau Newydd**

Estynnodd y Llywydd groeso i ddau Aelod newydd y Cyngor, Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S Trask ac R Williams.

**17 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

**Eitem 2**
**ARIANNU RHAGLEN GYFALAF YSGOLION YR 21AIN GANRIF GAN DDEFNYDDIO AMODAU BENTHYCA DARBODUS**

- Cyfeiriodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman at ei gollyngiad a roddwyd gan y Pwyllgor Safonau ar y 29 Tachwedd 2019 gan ddarparu "gollyngiad i'r aelod siarad a phleidleisio ar bob mater trwy gydol proses Cyllideb 2021-22, a'i mabwysiadu, yn rhinwedd ei swydd yn Arweinydd yr Wrthblaid."

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Williams - "Mae fy merch yn mynychu YG Rhydywaun"

**18 Rheol Dull Gweithredu'r Cyngor 15.1**

Cynigiodd y Dirprwy Arweinydd atal Rheol Gweithdrefn 15.1 y Cyngor, sy'n nodi y bydd mater yn cael ei benderfynu os bydd mwyafrif ymhlith yr Aelodau sy'n pleidleisio ac sy'n bresennol yn yr ystafell adeg y bleidlais - a hynny fel bod modd cynnal y cyfarfod ar-lein mewn modd didrafferth.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** atal Rheol Gweithdrefnu 15.1 y Cyngor

Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu y niferoedd a oedd yn bresennol ar gyfer pob un o'r Grwpiau Gwleidyddol fel a ganlyn: -

Grŵp Llafur - 38 aelod
Grŵp Plaid Cymru - 14 aelod
Grŵp Ceidwadol - 2 aelod
Grŵp Annibynnol RhCT - 4 aelod

**19 Ariannu Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Trwy Ddefnyddio Amodau Benthyca Darbodus (Prudential Borrowing)**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol ei adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer buddsoddiad cyfalaf gwerth £12.135 miliwn i gynyddu'r capasiti a gwella'r cyfleusterau addysgol yn Ysgol Gyfun Rhydywaun. Gofynnodd yr adroddiad hefyd am gytundeb i ariannu'r prosiect trwy Grant Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, Llywodraeth Cymru, ac i ariannu cyfraniad y Cyngor drwy fenthyciad gan ddefnyddio ei bwerau o dan y Cod Darbodus.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

1. Cytuno i gynnwys bloc addysgu newydd yn Ysgol Gyfun Rhydywaun yn y rhaglen gyfalaf am gyfanswm o £12.135 miliwn.

2. Cytuno y caiff cost cyfalaf net y Cyngor o £4.247 miliwn ei ariannu trwy fenthyca, gan ddefnyddio pwerau'r Cyngor o dan y Cod Darbodus, gyda'r gost refeniw flynyddol o £0.159 miliwn yn cael ei thalu o arbedion sy'n deillio o hyn a chynlluniau ad-drefnu ysgolion blaenorol eraill.

(**Nodyn**: Ymataliodd y Grŵp Ceidwadol rhag pleidleisio ar y mater)

## 20 Hepgor Rheol Presenoldeb 6 Mis y Cynghorwyr

Twy ei adroddiad ar y cyd â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, gofynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu i'r Cyngor ystyried rhoi caniatâd i fod yn absennol o holl gyfarfodydd y Cyngor a'i Bwyllgorau i'r Cynghorydd Clayton Willis oherwydd ei salwch presennol. Byddai'r caniatâd i fod yn absennol, yn unol ag adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, am gyfnod o hyd at chwe mis yn gorffen ar 26 Tachwedd 2021 neu nes i'r Cynghorydd Willis ailafael yn y cyfarfodydd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod cyfathrebu cyson wedi bod gyda theulu'r Cynghorydd Willis a gyda'i Arweinydd Grŵp, ac ar ôl hynny, penderfynwyd ei bod yn briodol ceisio caniatâd y cyngor ar gyfer y rheol chwe mis.

Yn dilyn trafodaeth a chais am anfon dymuniadau gorau'r Cyngor i deulu’r Cynghorydd Willis, **PENDERFYNWYD** rhoi'r y caniatâd hwnnw i fod yn absennol o holl gyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgor i'r Cynghorydd Clayton Willis oherwydd ei salwch presennol am gyfnod o hyd at chwe mis, yn gorffen ar 26 Tachwedd 2021, neu nes iddo ailafael yn y cyfarfodydd os yw hynny'n gynt, yn unol ag Adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

(**Nodyn**: roedd Grŵp Annibynnol RhCT yn dymuno ymatal rhag pleidleisio ar y mater ond roedden nhw'n dymuno estyn eu dymuniadau gorau i'r Cynghorydd C Willis a'i deulu).

## 21 Amrywiaeth mewn Democratiaeth

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu adroddiad 'Amrywiaeth mewn Democratiaeth' Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sy'n amlinellu'r gwaith a wnaed gan Weithgor Trawsbleidiol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Amrywiaeth o ran Democratiaeth leol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y cynigion yn

cael eu cefnogi gan holl Arweinwyr Grŵp Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a'i fod yn ceisio cefnogaeth pob cyngor yng Nghymru i gymeradwyo'r egwyddorion yn y datganiad. Nod hyn yw cynyddu cyfranogiad ac ehangu amrywiaeth ymhlith ymgeiswyr ar gyfer Etholiadau 2022.

Hefyd rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod i'r aelodau am y gwaith a wnaed gan Weithgor Amrywiaeth Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor a'r adroddiad yr oedd y Pwyllgor wedi'i fabwysiadu'n ddiweddar. Mae'r adroddiad yn nodi'r camau gweithredu y bydd y Gwasanaethau Democrataidd yn eu rhoi ar waith dros y flwyddyn nesaf i gefnogi amrywiaeth ymgeiswyr a'r ddarpariaeth sy'n ofynnol, trwy grwpiau gwleidyddol, i wireddu'r uchelgeisiau yn yr adroddiad interim a datganiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Estynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ei ddiolch i Ms Emma Wilkins am lunio'r adroddiad interim manwl.

I gloi, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, os yw'r Cyngor yn cefnogi datganiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddod yn 'Gyngor Amrywiol' heno, yna Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf fyddai'r Cyngor cyntaf i wneud hynny.

Canmolodd yr Aelod Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor a Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Cyngor adroddiad a gwaith y Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru dan arweiniad y Cyd-gadeirydd - y Cynghorydd Mary Sherwood, sy'n llefarydd ar ran Cydraddoldebau, Diwygio Lles a Gwrth-dlodi, a'r Cyd-Gadeirydd - y Cyng Susan. Elsmore, Llefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru dros Gydraddoldebau, Diwygio Lles a Gwrth-dlodi. Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet hefyd i aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am eu cyfraniadau i'r adroddiad interim ac i'r agenda amrywiaeth sy'n cyd-fynd â'r gwaith y mae'r Cyngor wedi bod yn ceisio'i gyflawni ers nifer o flynyddoedd.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor bwysigrwydd cefnogi datganiad amrywiaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a fyddai'n hyrwyddo amrywiaeth o fewn y Cyngor.

Yn ystod ei thrafodaethau, yn arbennig ynghylch y set ddata yn adroddiad interim y Gweithgor Gwasanaethau Democrataidd, gwnaeth Arweinydd Grŵp Plaid Cymru sylwadau am y cyfle a gollwyd i benodi Cadeirydd benywaidd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ddiweddar, yn ogystal â penodi Cadeirydd benywaidd yn Gadeirydd ar Weithgor y Gwasanaethau Democrataidd. Dywedodd fod angen i'r Cyngor wella ei gymhareb o ran Cadeiryddion Pwyllgorau sy'n fenywod ac yn ddynion. Roedd Arweinydd yr Wrthblaid yn dymuno cywiro enw'r Cynghorydd E Stephens yn ffurfiol yn yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth bellach, cydnabuwyd dull cadarnhaol y Cyngor o hyrwyddo'r Gymraeg. Gwnaed sylwadau pellach ar bwysigrwydd trin pob Aelod yn gyfartal, waeth beth fo'u hoedran, rhyw a chefndir, yn ogystal â phwysigrwydd ymrwymo i'r fesur canlyniadau'r argymhellion sy'n deillio o'r adroddiad Amrywiaeth.

Roedd Cadeirydd y Gweithgor Amrywiaeth yn falch o gyflwyno'r adroddiad interim a chefnogi'r datganiad amrywiaeth i'w fabwysiadu gan y Cyngor.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r argymhellion yn yr adroddiad yn gwella'r ymgysylltiad sydd ei angen i apelio at ddarpar ymgeiswyr a phleidleiswyr ifainc trwy'r ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a gyflwynwyd ar gyfer etholiadau'r Senedd.

Gwnaeth Arweinydd y Cyngor sylwadau am hanes cadarnhaol y Cyngor hyd yma o ran amrywiaeth, a nododd fod nifer y cadeiryddion benywaidd ar bwyllgorau yn 54.5% o'i gymharu â 45.3% o gadeiryddion sy'n wrywaidd. Ychwanegodd fod amrywiaeth yn golygu mwy na thrafod cynrychiolaeth dynion a menywod ar bwyllgorau, a chytunodd fod angen i bob plaid wleidyddol wella. Cymeradwyodd yr Arweinydd yr adroddiad a chefnogodd ddatganiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddod yn 'Gyngor Amrywiol'.

**PENDERFYNWYD**:

1. Nodi gwaith Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ac adroddiad interim y Gweithgor a luniwyd i hyrwyddo'r agenda amrywiaeth yn y Cyngor, sydd ynghlwm yn Atodiad A;
2. Nodi'r camau a amlinellir yn adroddiad Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, fel yr atodir yn atodiad B.
3. Cymeradwyo datganiad 'Cyngor Amrywiol' mewn egwyddor, a chytuno i ddatganiad amrywiaeth pwrpasol ar gyfer CBSRhCT gael ei ddwyn gerbron y Cyngor ym mis Gorffennaf.
4. Derbyn diweddariadau ac adroddiadau cynnydd ar y gwaith mae angen i'r Cyngor ei wneud mewn perthynas â'r camau a amlinellwyd yn adroddiad Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a gwaith parhaus Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd fel y bo'n briodol.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.40 pm**

**Cllr S Powderhill**
**Cadeirydd.**